Mynegiannau Digidol

Technegau i annog pobl i fynegi eu hunain gan ddefnyddio camerâu digidol

Rydym wedi defnyddio amrywiaeth o dechnegau ar brosiect Cyswllt Sir Gaerfyrddin i ennyn diddordeb aelodau'r gymuned mewn defnyddio camerâu llonydd a fideo digidol. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn annog cyfranogwyr i ddefnyddio'r dechnoleg i fynegi eu barn eu hunain a barn eu cymunedau. Dyma ddetholiad o'r technegau mwyaf llwyddiannus yr ydyn ni wedi eu darganfod wrth weithio gyda grwpiau cymunedol.

Cardiau Ciw: Pwyntiau Trafod

Diben

Dull sy'n galluogi pobl i siarad yn rhydd ar gamera, ynghylch thema benodol. Mae'r dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol wrth annog grŵp i ganolbwyntio ar un testun unigol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol mewn ymarferion gwerthuso, neu'n fwy cyffredinol.

Yr Offer sydd ei Angen

- Camerâu fideo digidol (fel camerâu 'Busbi' neu gamerâu ffon symudol) - 1 camera i bob 2 neu 3 o gyfranogwyr
- Cardiau A4 (1 i bob camera)
- Cluniadur (*laptop*) / Cyfrifiadur Personol (i lawrlwytho deunydd yn nes ymlaen)

Camera fideo digidol 'Busbi'

Yr Amser sydd ei Angen

Tua 10-15 munud

Disgrifiad

Paratowch gardiau ciw ymlaen llaw. Dewiswch eiriau sengl neu gymalau byr sy'n galluogi cyfranogwyr i ganolbwyntio ar thema benodol. Er enghraifft, gellir defnyddio cerdyn gyda'r gair "Cymraeg" i annog cyfranogwyr i ddisgrifio eu teimladau at yr iaith Gymraeg. Ysgrifennwch neu argraffwch y gair neu'r cymal mewn llythrennau mawr ar gardiau A4.

I ddefnyddio'r cardiau ciw, rhannwch y grŵp yn 2 neu'n 3 i bob grŵp, a rhowch gamera a cherdyn ciw i bob grŵp. Dangoswch sut i ddefnyddio'r camerâu ac esboniwch eu bod yn mynd i ffilmio'i gilydd yn dal y cerdyn ciw tra'n siarad am y testun ar y cerdyn.

Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n addas defnyddio cardiau lluosog neu gardiau sydd â rhywbeth ar y ddwy ochr. Er enghraifft: gellid defnyddio cerdyn 'Gobeithion' / 'Ofnau' ar ddechrau gweithgaredd i fesur disgwyliadau cyfranogwyr; gellid defnyddio cerdyn 'Wythnos Diwethaf' / 'Yr Wythnos Hon' i weld y newid yn agweddau'r cyfranogwyr.

Cyfeiriadau

http://www.carmsconnect.org.uk/2008/07/keeping-it-real.html

Wynebau Hapus

Diben
Mae 'Wynebau Hapus' yn galluogi cyfranogwyr i gasglu adborth positif neu negyddol ynghylch gwrthrych penodol (er enghraifft nodweddion ffisegol cymuned leol). Mae hyn yn gallu bod yn ddefnyddiol fel rhan o weithgaredd ymgynghori neu werthuso ehangach.

Yr Offer sydd ei Angen
- Camerâu digidol llonydd neu gamerâu ffonau symudol
- 'Cluniadur' (laptop) neu Gyfrifiadur Personol
- Cardiau A4 gyda 'Wyneb Hapus' / 'Wyneb Trist' (1 i bob camera neu gyfranogwr)

Yr Amser sydd ei Angen
Mae'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r ymarfer hwn yn dibynnu ar y math o ymgynghoriad neu werthusiad sydd ar waith, ac fe all gymryd unrhyw gyfnod o amser, o 1-2 awr i sawl diwrnod.

Disgrifiad
Paratowch y wynebau hapus a trist ar gardiau A4 (un bob ochr) naill ai trwy argraffu o gyfrifiadur neu eu darlunio gyda llaw. Paratowch unrhyw offer fydd ei angen arnoch ar gyfer yr ymarfer.

I gynnwys y grŵp:
1. Cyflwynwch eich hun a dywedwch pam yr ydych chi yno.
2. Esboniwch wrth y grŵp y bydd y cardiau'n cael eu defnyddio gyda'r camerâu i gofnodi eu hadborth a'u teimladau.
3. Gofynnwch i'r grŵp ddewis pethau penodol y maen nhw'n teimlo'n gryf yn eu cylch, a thynnu ffotograffau o'r nodweddion neu'r gwrthrychau hyn, gan gynnwys wynebau trist neu hapus i gynrychioli sut maen nhw'n teimlo amdanyn nhw.
4. Dosbarthwch y camerâu a chefnogwch y cyfranogwyr gyda'r gweithgaredd.
5. Wedi iddynt orffen, casglwch y camerâu.

Y gwaith dilynol cychwynnol yw llwytho'r holl ffotograffau ar luniadur neu gyfrifiadur personol, a'u gosod mewn ffeiliau ar wahân fel eich bod yn gwybod pa gyfranogwyr sydd wedi tynnu pa luniau. Yna, fe allwch eu storio ar Gryno Ddisg tan fyddwch chi eu hangen, er enghraifft, mewn cyfarfod yn y dyfodol, ble byddwch yn gallu eu harddangos ar daflunydd neu eu hargraffu er mwyn i'r gymuned eu gweld a'u trafod.

Mae defnyddio'r dull hwn o gynnwys y grŵp yn ffordd wych o sbarduno a dogfennu adborth gan gyfranogwyr – adborth sy'n berthnasol i ymarfer ymgynghori neu werthuso ac yn galluogi unigolion i chwarae rhan flaenllaw yn y broses ymgynghori a gwerthuso.

Cyfeiriadau
http://www.carmsconnect.org.uk/labels/Penymorfa%20Community%20Garden%20Project.html

Cardiau Cwestiwn

Diben
Mae cardiau cwestiwn yn annog cyfranogwyr i siarad ar gamera ynghylch gweithgaredd neu brofiad. Mae defnyddio cardiau cwestiwn yn creu strwythur ar gyfer cyfweliadau ac yn galluogi cyfranogwyr i gofnodi eu meddyliau, barn ac adborth ynghylch testun neu weithgaredd arbennig.

Yr Offer sydd ei Angen
- Camerâu fideo bach i'w dal yn eich llaw (fel camerâu Busbi) neu gamerâu ffon symudol, neu gamera fideo DV bach
- Cardiau cwestiwn A5 wedi eu hargraffu ymlaen llaw
- Cluniadur (*laptop*) neu gyfrifiadur personol

Yr Amser sydd ei Angen
Mae un person yn gallu gwneud yr ymarfer hwn gyda grŵp o 2-5 cyfranogwr mewn tua 15 munud a gyda grŵp mwy o 8-12 cyfranogwr mewn tua 30 munud.

Disgrifiad
Yn gyntaf, paratowch y cwestiynau ar gardiau A5. Fe allwch wneud hyn ar gyfrifiadur a'u hargraffu, neu eu hysgrifennu gyda llaw. Fe fydd angen i chi baratoi cyfres o gardiau cwestiwn ar gyfer pob camera llaw sy'n cael ei ddefnyddio.

<u>I gynnwys y grŵp:</u>
1. Cyflwynwch eich hun i'r grŵp a dywedwch pam yr ydych chi yna.
2. Dywedwch pam fydd y cardiau cwestiwn yn cael eu defnyddio, h.y. beth yw eu diben (dangoswch os oes angen).
3. Rhannwch y grŵp yn barau (yn ddelfrydol) a rhowch gamera i bob pâr, gan ddangos sut i'w ddefnyddio.
4. Gofynnwch i'r grŵp ffilmio cyfweliadau gyda'i gilydd, yn y parau, gan ddefnyddio'r cwestiynau a ddarparwyd (cefnogwch os oes angen).
5. Casglwch y camerâu.

Y gwaith dilynol cychwynnol ar gyfer yr ymarfer hwn yw lawrlwytho'r holl glipiau fideo i gluniadur neu gyfrifiadur personol, a'u rhoi mewn ffeiliau gwahanol, fel eich bod yn gwybod pa gyfranogwyr sydd wedi ffilmio pob fideo. Yna, fe allwch eu storio ar Gryno Ddisg hyd nes bod eu hangen, er enghraifft, mewn cyfarfod yn y dyfodol, neu eu cyhoeddi ar wefan er mwyn i eraill eu gweld.

Cyfeiriadau
http://www.carmsconnect.org.uk/2009/01/base-facilitate-upper-amman-valley.html



Fy Ngair

Diben
Dull o annog pobl i grynhoi eu teimladau ynghylch profiad neu destun. Efallai y bydd y dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol wrth werthuso, yn union ar ôl gweithgaredd.

Yr Offer sydd ei Angen
- Camerâu fideo digidol (fel camerâu 'Busbi' neu gamerâu ffon symudol) - 1 camera i bob 2 neu 3 o gyfranogwyr
- Cardiau A4 gwag (1 i bob camera)
- Pinnau Felt Hud
- Cluniadur (*laptop*) / Cyfrifiadur Personol (i lawrlwytho deunyddiau yn nes ymlaen)

Yr Amser sydd ei Angen
Tua 15-20 munud

Disgrifiad
Rhannu'r grŵp i grwpiau o 2 neu 3. Rhoi camera i bob grŵp a rhoi cerdyn gwag i bob cyfranogwr. Rhoi amrywiaeth o binnau hud i gyfranogwyr ddewis ohonynt. Dangos sut i ddefnyddio'r camerâu.

Gofynnwch i bawb feddwl am air sy'n disgrifio eu teimladau ynghylch y profiad neu'r testun penodol yr ydych yn delio gydag ef. Esboniwch, os nad ydynt yn gallu meddwl am un, y gallant greu gair eu hun. Gofynnwch iddynt ysgrifennu'r gair ar y cerdyn mewn llythrennau mawr.

Pan fydd pawb wedi cael cyfle i ddewis eu gair, gofynnwch iddynt i ffilmio cyfweliadau gyda'i gilydd, neu grwpiau, ynghylch y gair a ddewiswyd ganddynt. Dylai pob cyfranogwr ddal eu cerdyn i fyny ac esbonio pam maen nhw wedi dewis eu gair (neu os ydynt wedi dyfeisio gair, beth mae'n ei olygu a pham maen nhw wedi ei ddewis.)

Cyfeiriadau
http://www.carmsconnect.org.uk/2008/07/keeping-it-real.html